# ADFYWIO BANGOR



## DIWEDDARIADAU PROSIECTAU'R BARTNERIAETH

Trawsnewid Trefi Transforming Towns

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CYNGOR GWYNEDD




### CYLLID LLYWODRAETH CYMRU YN SICRHAU CYTUNDEB OPSIWN AR GYFER CANOLFAN IECHYD A LLES

Sicrhawyd cyllid gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru i sicrhau cytundeb opsiwn ar uned wag allweddol yng Nghanolfan Menai Bangor. Mae hyn yn gam hanfodol tuag at gyflwyno Canolfan Iechyd a Lles integredig newydd, dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd. Mae'r cyfleuster arfaethedig, sydd wedi ei gynllunio i'w leoli yn yr hen uned Debenhams, yn anelu at wella mynediad at ofal iechyd ac addysg, darparu cyfleoedd hyfforddi newydd, ac annog mwy o bobl i ymweld â chanol y ddinas. Mae'r bwrdd prosiect yn dal i aros am gyllid Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF), i allu symud ymlaen i'r cam nesaf, sef yr Achos Busnes Amlinellol

### HWB CYMUNEDOL BANGOR: LLINELL O GYMORTH I BRESWYLWYR SY'N TYFU

Yn cael ei redeg gan Gyngor Dinas Bangor, mae Hwb Cymunedol newydd ar Ffordd Garth wedi derbyn llawer o gefnogaeth lleol. Mewn dim ond 22 wythnos, mae'r Hwb wedi croesawu dros 2,177 o drigolion, gan weithio mewn partneriaeth â 48 o sefydliadau a thîm o wirfoddolwyr. Gyda £42,000 mewn grantiau wedi'u sicrhau a rhoddion cymunedol yn cynyddu, mae'r Hwb yn darparu gwasanaethau eang gan gynnwys cymorth iechyd meddwl, mannau diogel, gofal profedigaeth, gwasanaethau allgymorth a chymorth ymarferol gyda bwyd, tai a budd-daliadau. Gan edrych i'r dyfodol, mae'r cynlluniau'n cynnwys lansio Caffi Argyfwng 24/7, darparu hyfforddiant am ddim i wasanaethau lleol, a chryfhau cysylltiadau rhwng hybiau cymunedol ar draws y ddinas. Am ragor o wybodaeth, ewch i Wefan Cyngor Dinas Bangor.







### PLEIDLAIS ADNEWYDDU AGB BANGOR AR Y GWEILL

Mae Ardal Gwella Busnes Bangor (Bangor yn Gyntaf) yn paratoi ar gyfer balot adnewyddu pwysig a fydd yn siapio dyfodol buddsoddiad canol y ddinas o 2026 i 2031. Bydd y broses bleidleisio yn dechrau gyda Hysbysiad o Bleidlais ar 16 Hydref 2025, gyda phleidleisiau yn agor ar 30 Hydref ac yn cau ar 27 Tachwedd. Cyhoeddir y canlyniad ar 28 Tachwedd 2025, ac os bydd yn llwyddiannus, bydd y tymor pum mlynedd newydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2026. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Bangor yn Gyntaf.

# ADFYWIO BANGOR



## DIWEDDARIADAU PROSIECTAU'R BARTNERIAETH

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
CYNGOR GWYNEDD



## DATHLIADAU BANGOR 1500: BLWYDDYN O YSBRYD CYMUNEDOL

Mae dathliadau 1500 mlynedd Bangor wedi bod yn arddangosiad bywiog o falchder lleol. Gyda chefnogaeth rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, mae'r dathliadau wedi dod â chymunedau at eu gilydd drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau a phrosiectau. Mae digwyddiadau hyd yn hyn wedi cynnwys Diwrnod VE, yr Ŵyl Gerddoriaeth, Gŵyl y Pier, Gorymdaith Bangor, a Gŵyl yr Haf. Ymhlith y digwyddiadau sydd i'w ddod mae'r Ŵyl Hanes (18–19 Hydref) a'r Ŵyl Nadolig (yr union ddyddiad i'w gadarnhau). Yn ogystal â digwyddiadau, mae mannau gwyrdd wedi cael eu trawsnewid trwy gynlluniau plannu a gwelliannau i barciau, tra bod ysgolion wedi cymryd rhan mewn prosiectau a chystadlaethau treftadaeth. Wedi'i hysbrydoli gan waith Dinas Diwylliant Bradford, mae trafodaethau ar y gweill ar sut y gall Bangor adeiladu ar y momentwm hwn yn yr hirdymor, gan gynnwys archwilio modelau i ddathlu treftadaeth leol ar ôl 2025.



## RHAGLEN GWYNEDD NI: BUDDSODDI MEWN MANNAU CYMUNEDOL

Trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae £1.2M wedi ei ddyrannu i brosiectau adfywio ar draws Gwynedd drwy Raglen Gwynedd Ni, gan gynnwys buddsoddiad ym Mangor. Bydd y prosiectau'n amrywio a byddant yn rhedeg rhwng Mehefin 2025 ac Ionawr 2026. Mae prosiectau penodol Bangor yn cynnwys Asesiad o ddarpariaeth hamdden i lunio dyfodol cyfleusterau chwaraeon a hamdden lleol, prosiect dyluniad i wella cysylltiadau rhwng Pontio a Storiel, a chynllun dylunio pellach i wella mynediad a bioamrywiaeth yn y Gwersyll Rhufeinig. Bydd y buddsoddiadau targededig hyn yn cryfhau seilwaith cymunedol ac yn sicrhau bod Bangor yn parhau i fod yn fywiog ac â chysylltiadau da. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag adfywio@gwynedd.llyw.cymru



## DATBLYGIAD HEN SAFLE PEACOCKS YN RHOI BYWYD NEWYDD I'R STRYD FAWR

Mae datblygiadau cyffrous ar waith yn hen safle Peacocks ar Stryd Fawr Bangor, gyda'r prosiect yn gobeithio cael ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2026. Gyda chefnogaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig a rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, bydd cynllun Varcity Living yn darparu llety o ansawdd uchel i dros 50 o drigolion, gan ddod â bywyd a bwrlwm i ganol y ddinas. Ynghyd â'r elfen breswyl, bydd y llawr gwaelod yn cynnwys unedau masnachol wedi eu hadnewyddu, bydd yn creu cyfleoedd i fusnesau sefydlu eu hunain mewn lleoliad amlwg yn nghanol y ddinas. I gael rhagor o wybodaeth am yr unedau masnachol ewch i wefan rightmove.